

Minutes



Pwyllgor Archwilio

Date: Dydd Iau, 25 Mai 2023

Time: 5.00 pm

Present: G Chapman (Chair), Mr D Reed, Dr N Barry
Councillors R Mogford, G Horton, J Jordan, S Cocks and J Harris R Cornwall, M
Rushworth, D Palmer, L Mahoney, L Townsend, L Rowlands, P Tasker, A
Jenkins

1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim

2 Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth.

Soniodd Dr Barry nad oedd dyddiadau cau ar y tabl camau gweithredu ac awgrymodd hefyd y dylid nodi'r tabl camau gweithredu yn y Cofnodion a'i fod yn teimlo bod hyn yn arfer da.

3 Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Cafodd Mr Chapman ei enwebu fel Cadeirydd, eiliwyd gan Mr Reed, a gafodd ei enwebu a'i eilio fel Dirprwy Gadeirydd.

4 Diweddariad ar Ffurflenni Datganiad Partïon Cysylltiedig Aelodau Etholedig

Rhoddyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol wrth y Pwyllgor fod 50 allan o'r 51 aelod a oedd wedi cyflwyno eu ffurflenni wedi'u cwblhau a disgwylir y byddai'r aelod sydd ar ôl yn cwblhau ac yn cyflwyno ei ffurflen erbyn y diwrnod canlynol.

Gofynnodd y Cadeirydd a ellid hysbysu'r Pwyllgor pan gyflwynwyd pob ffurflen fel arall, os oedd un ffurflen yn dal i fod yn ddyledus, gellid dod â'r Cynghorydd i'r pwyllgor nesaf ym mis Gorffennaf i esbonio pam na chyflwynodd y ffurflen.

5 Galw i mewn Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol a'r Pennaeth Cyllid parthed Cardiau Prynu (Trafodion) yn arwain at Farn Anfoddhaol

Yn dilyn barn anfoddhaol gan Archwilio Mewnol mewn perthynas â Thrafodion Cardiau Prynu (P-Card), gwahoddyd y Cyfarwyddwr Strategol a'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y

system P-Card i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod gwelliannau priodol o fewn darpariaethau gwasanaeth a'r amgylchedd rheoli wedi'u gwneud.

Ystyriodd y Pwyllgor yr esboniadau a'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Strategol a'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â'r pryderon a godwyd gan Archwilio Mewnol ar gyfer Trafodion Cardiau Prynu, bod gwelliannau wedi'u gwneud o ran darparu gwasanaethau yn dilyn barn archwiliad anfodddhaol.

Roedd yr archwiliad blynyddol hwn wedi'i gwblhau gydag adroddiad a chynllun gweithredu ar waith ac fe'i cyhoeddwyd yn derfynol ym mis Mawrth 2023.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod hyn wedi cael ei drafod yn y Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) a'r bwrdd gweithredol. Felly, roedd hwn yn gynllun gweithredu ehangach ac roedd wedi derbyn y lefel uchaf o sylw a byddai'n destun dilyniant blynyddol ac roedd disgwyl gwelliant sylweddol yn y gwasanaeth pan gaiff ei ystyried eto.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol gyd-destun drwy gynghori bod yr archwiliad wedi'i gynnal ar ddiwedd y pandemig ac nad oedd staff yn gweithredu yn gwbl wahanol nag y byddent fel arfer yn gwneud hynny. Roedd hefyd yn bwysig esbonio bod y defnydd o Gardiau Prynu o fewn y Cyngor oherwydd bod rhaid i lawer o weithgarwch fod yn ymatebol ar sail o ddydd i ddydd a dileu'r angen am arian mân a bod Cardiau Prynu yno i sicrhau bod parhad o dan yr amgylchiadau i helpu gyda gwariant. Mae'r polisi wedi cael ei adolygu a'i ailgyhoeddi. Roedd hyfforddiant ar-lein newydd ar gael, o 15 Mai gyda dyddiad cau 23 Mehefin i bob awdurdodwr, goruchwyliwr a defnyddiwr ei gwblhau, byddai Cardiau Prynu'r rhai a oedd wedi methu â chwblhau'r hyfforddiant yn cael eu canslo. Hyd yma roedd 77 allan o 217 wedi ymgymryd â'r hyfforddiant ac felly fe'i cymerwyd o ddifrif. Yn ogystal, roedd yr holl gamau gweithredu a roddwyd ar waith wedi'u cwblhau.

Sylwadau'r Aelodau Pwyllgor:

- Roedd gan Dr Barry hyder yn yr hyn yr oedd swyddogion wedi ei ddweud ac roeddent wedi cymryd y materion hyn o ddifrif, fodd bynnag, nid oedd yn derbyn ei fod oherwydd Covid gan y dylid dilyn polisi beth bynnag. Wrth fynd drwy'r rhestr weithredu, roedd Dr Barry o'r farn nad mater gallu oedd hwn ond mater disgyblu. Roedd yn dda clywed bod hyfforddiant wedi'i gymryd a'r gobaith oedd y byddai'n mynd i'r afael ag achos sylfaenol y broblem. Roedd Dr Barry yn teimlo bod angen rheolaeth a goruchwyliaeth gref, gyda sicrwydd bod y polisi yn gadarn. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol at rai o'r camau rheoli, yn enwedig Atodiad 2 lle rhoddwyd archwiliadau misol ar waith i sicrhau bod staff yn cadw at bolisi. Gan gyfeirio at Covid, roedd staff yn gweithredu o bell, felly roedd rhai pethau'n anoddach i'w gwneud nag o'r blaen, a gafodd effaith ar reolaeth rheoli.

Gofynnodd Dr Barry pe bai unrhyw gamau disgyblu wedi'u cymryd o ganlyniad ac fe'i cynghorwyd gan y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol mai mater AD oedd hwn a dim ond cynghori y byddai unrhyw gamau priodol yn cael eu cymryd.

- Teimlai'r Cynghorydd Cocks mai goruchwylwyr cardiau oedd yn gyfrifol am oruchwyllo'r defnydd o Gardiau Prynu, a gofynnodd pa mor gadarn oedd y broses a beth oedd disgwyl i'r goruchwylwyr cardiau ei wneud i gynnal hyn. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod yr iaith mewn polisi yn fwy uniongyrchol o ran yr hyn nad oedd yn dderbyniol a bod yn yr hyfforddiant hefyd gyfarwyddyd uniongyrchol ar yr hyn na chaniateir a'r canlyniadau ar gyfer hyn. Felly, cryfhawyd y polisi hwn, a ddyblygwyd yn yr hyfforddiant a deiliaid cardiau ac atgoffwyd goruchwylwyr o'u rôl. Byddai'r Tîm E-gaffael yn anfon hysbysiad at y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol pe na bai goruchwylwyr cardiau wedi'u hawdurdodi ar gyfer trafodion ar y cerdyn hwnnw bob mis a byddai archwiliad mewnol hefyd yn gwirio hyn yn flynyddol.

- Roed y Cadeirydd o'r farn nad oedd ymateb y Pennaeth Cyllid yn rhoi sicrwydd a gofynnodd a oedd y geiriad yn y polisi yn cael ei ddiwygio i fod yn fwy cadarn i ddweud y byddai pob goruchwyliwr yn cynnal gwiriad chwarterol ar 10% o'r pryniannau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid eu bod yn cael eu gwirio a bod angen i'r goruchwyliwr gymeradwyo pob trafodiad, gan gynnwys y ddogfennaeth ategol ar gyfer y trafodiad ar ffurf anfoneb neu dderbynneb.
- Roedd y Cynghorydd Horton eisiau sicrwydd bod e-byst mewn perthynas â phob trafodiad yn cael eu darllen, eu deall a'u gweithredu. Y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol ynghyd â'r sancsiynau am beidio â dilyn y broses. Felly roedd e-byst yn rhan o'r broses honno a byddai'r hyfforddiant fel rhan o'r system gydymffurfio Meta yn sicrhau y byddai goruchwylwyr yn deall pob agwedd o'r broses yn llawn.
- Gofynnodd y Cynghorydd Mogford, a oedd 217 o Gardiau Prynu mewn cylchrediad, beth oedd y terfyn gwariant uchaf ar y cerdyn ac a fyddai angen iddo gael ei gymeradwyo cyn neu ar ôl. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod terfyn trafodiad safonol i'r Gardiau Prynu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Caffael a Thaliadau mai'r terfyn oedd £100 fesul trafodiad a therfyn misol o £5,000. Gallai'r terfyn trafodiad safonol gael ei amrywio gan oruchwyliwr y cerdyn neu'r Pennaeth Gwasanaeth pe bai angen ei gynyddu.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at gynyddu'r gwariant trothwy a gofynnodd pe bai hyn yn cael ei gymeradwyo gan uwch swyddog, megis y Pennaeth Cyllid a awdurdodwyd hyn yn hytrach na'r rheolwr gwasanaeth a phwy fyddai'n gwirio hyn gan y tîm cyllid. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai goruchwyliwr gynyddu'r terfyn o £10,000 i £15,000, heb i'r tîm Cyllid fod yn ymwybodol o'r gwariant hwn. Felly, a oedd gwiriad ar y gwariant o £5,000. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn dod drwy'r Tîm Caffael a fyddai'n cynnal gwiriad rhesymol ac yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaeth, yn enwedig gan y byddai'r Tîm Caffael yn codi unrhyw anghysonderau mewn gwariant ar unwaith. Yn ogystal, pe na bai'r Tîm Caffael yn hapus, byddent yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid.

O ran yr hyfforddiant, awgrymodd y Cadeirydd, os nad oedd gweddill y 217 wedi cwblhau eu hyfforddiant o fewn y dyddiad cau gofynnol, sef 23 Mehefin, y dylai'r staff hynny sy'n weddill gollu eu Gardiau Prynu. Yn ychwanegol at hyn, gofynnodd y Cadeirydd am sicrhau bod ffigurau ar gael o staff nad oeddent yn cwblhau'r hyfforddiant i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gorffennaf. Cytunodd y Pennaeth Cyllid i'r awgrymiadau hyn a dywedodd hefyd y byddai angen i bob deiliad cerdyn newydd ymgymryd â hyfforddiant yn y dyfodol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol fod 33 o'r 217 aelod o staff sydd angen i ymgymryd â hyfforddiant, yn oruchwylwyr ac roedd 184 o ddeiliaid Cerdyn Prynu.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at dudalen 31 Atodiad 1 Tabl 4b 'camau wedi'u cwblhau' a 'gwaith ar y gweill' er mwyn i gyfathrebiadau gael eu dosbarthu i'r holl staff ynglŷn â thocynnau parcio/goryrru wrth ddefnyddio cerbyd ar ddyletswydd y cyngor a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn. Mae'n dweud y dylid ailgyhoeddi cyfathrebu a diweddarau polisi, yna dywedodd y dyddiad gweithredu rheoli fflyd 20 Mehefin ond ni ellid gweithredu hyn nes bod y Polisi wedi'i gwblhau. Pryd y byddai hyn yn cael ei wneud? Byddai'r Pennaeth Cyllid yn dod o hyd i'r wybodaeth hon erbyn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd, yn Atodiad 1 Tabl 4b, fod camau a gymerwyd i adennill cost parcio / dirwyo goryrru ar y gweill, felly gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol fynd ar drywydd hyn gyda'r Tîm Adnoddau Dynol.

O ran yr uchod, sicrhodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol hefyd y Cadeirydd y byddai mesurau priodol yn cael eu cymryd fel camau disgyblu, pe bai angen.

Teimlai'r Cadeirydd fod cynnydd mawr wedi'i wneud a diolchodd i'r Tîm Archwilio am fynd i'r afael â hyn ynghyd â CMT ac roedd hyn yn mynd rhagddo ac y gallai'r adolygiad archwilio mewnol gael ei gynnal o fewn chwe mis.

Penderfynwyd:

Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;

Dderbyn esboniadau a sicrwydd y Cyfarwyddwr Strategol a'r Pennaeth Gwasanaeth, a fyddai'n cael eu cadarnhau drwy'r archwiliad mewnol dilynol a gynlluniwyd ar gyfer 2023/24.

6 Diweddariad ar Contractau Tacsî PTU yn arwain at Ail Farn Anfoddhaol - Ionawr 2023

Cynhaliwyd yr archwiliad dilynol yn ystod mis Chwefror a mis Mai 2022 gyda'r gwendidau a'r camau rheoli y cytunwyd arnynt wedi'u crynhoi yn y nodyn briffio sydd ynghlwm wrth bapurau'r agenda. Roedd y gwasanaeth wedi gwneud gwaith i weithredu pob un o'r camau a amlinellir yn y nodyn briffio a nodwyd bod y camau hyn bellach wedi'u cwblhau.

Roedd y tabl uchod ar dudalennau 41 i 45 yn crynhoi'r gwendidau unigol oedd ar ôl a nodwyd yn ystod yr adolygiad dilynol.

Sylwadau'r Aelodau Pwyllgor:

- Roedd Dr Barry yn poeni am reoli hyn yn y dyfodol, er enghraifft yr hyn oedd yn cael ei wneud i sicrhau bod gwiriadau'r GDG yn gyfredol a'i fod eisiau sicrwydd y byddai'n cael ei reoli'n iawn yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd tri aelod o staff i'w cyflogi i wirio trwyddedau gyrru tra bod y cyngor yn torri'r adnoddau yn archwilio. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas fod achos busnes wedi'i gyflwyno i'r bwrdd gweithredol mewn perthynas ag UTT, y pryderon a lle roedd llwyth gwaith wedi cynyddu. Penderfynwyd bod angen yr adnodd ychwanegol, nid yn unig ar gyfer gwirio trwyddedau gyrrwyr ond swyddogaethau ychwanegol ar draws y UTT. Yn ogystal, nid oedd y system gyfrifiadurol yn ddigon i gyhoeddi rhybuddion pan oedd gwiriadau GDG a thrwydded yn ddyledus. Felly, datblygwyd system wythnosol i roi digon o amser i yrwyr adnewyddu eu ffurflenni GDG cyn iddynt ddod i ben.
- Gofynnodd y Cynghorydd Jordan pa mor hir ymlaen llaw fyddai atgoffa am GDG yn digwydd. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas y byddai'r nodyn atgoffa yn digwydd chwe wythnos ymlaen llaw, roedd hyn ar ffurf e-bost a galwad ffôn dilynol.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at hyfforddi hebryngwyr ac roedd eisiau sicrwydd bod pob hebryngwr wedi ymgymryd â hyfforddiant. Rhoddwyd gwybod i'r Cadeirydd mai gwiriad wythnosol oedd y rhain a'u bod yn gyfredol.

Mewn perthynas â chyfathrebu ag Addysg, UTT a rhanddeiliaid, a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd, gofynnodd y Cadeirydd pryd y cyfarfu'r grŵp ddiwethaf. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas eu bod yn cyfarfod yn gynharach yn yr wythnos a thrafodwyd materion yn y grŵp, cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn bob mis. Mynychodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol y grŵp hwn hefyd.

- Soniodd D Reed ei bod yn dda gweld y cynnydd a oedd yn mynd rhagddo.
- Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Pennaeth Gwasanaeth a rhoi clod i'r tîm am eu cynnydd. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am ddiweddariad gan Bennaeth Gwasanaethau'r Ddinas yn y Pwyllgor nesaf ym mis Gorffennaf a'r pwyllgor canlynol ar eu cynnydd parhaus.

Penderfynwyd:

Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y wybodaeth ddiweddaraf gan Bennaeth Gwasanaethau'r Ddinas a gofynnodd am ddiweddariadau pellach ar gyfer y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf.

7 **Diweddariad ar Alw i Mewn gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaeth ynghylch yr Archwiliad Mewnol o Lwfansau Mabwysiadu yn arwain at Ail Farn Anfoddhaol - Ionawr 2023**

Rhodddwyd diweddariad llafar i'r Pwyllgor gan y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro, a gyfarfu am gyfnod byr gyda'r Cyfarwyddwr Strategol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwyr Gwasanaeth y diwrnod cyn y pwyllgor hwn.

- Roedd capasiti ychwanegol bellach ar gael.
- Roedd rhai heriau staffio yn cael eu datrys.
- Roedd trafodaethau'n parhau o ran lle goruchwyliwyd Lwfansau Mabwysiadu.
- Roedd ail adroddiad dilynol Archwilio yn dal i fod ar ffurf drafft. Roedd Rheolwyr Gwasanaeth yn cyfarfod i gytuno ar gamau rheoli. Byddai'r Tîm Archwilio yn cyfarfod â nhw yn fuan i gytuno ar y cynllun gweithredu a'r amserlenni ar gyfer gweithredu ac yna cwblhau'r adroddiad archwilio.
- Deallwyd bod y Cyfarwyddwr Strategol a'r Pennaeth Gwasanaeth wedi eu gwahodd i gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan aelodau'r pwyllgor gyfle i holi'r Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Penderfynwyd:

Bod y Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro ac y byddai'r Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei wahodd i'r cyfarfod nesaf ar 27 Gorffennaf.

8 **Adroddiad Diwedd Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2022/2023**

Yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys y cytunwyd arni, parhaodd y cyngor i fod yn fuddsoddwr arian parod byrdymor ac yn fenthyciwr i reoli llif arian parod o ddydd i ddydd. Roedd y rhagolygon cyfredol yn dangos y gallai fod angen benthycia dros dro yn y dyfodol i ariannu gweithgareddau llif arian arferol o ddydd i ddydd a byddai benthycia tymor hwy yn cynyddu i ariannu ymrwymadau yn y rhaglen gyfalaf bresennol, yn ogystal ag effaith llai o gapasiti ar gyfer 'benthycy mewnol'.

Buddsoddodd yr Awdurdod hefyd mewn tri bond wedi'u hyswirio o fewn 2022-23, cyfanswm o £10m, yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a ddywedodd y byddai'r Cyngor yn ystyried buddsoddiadau hirdymor o hyd at £10m.

Yn ystod y flwyddyn, roedd cyfanswm benthycy y Cyngor wedi gostwng o £142.1m i £138.6m a gostyngodd cyfanswm y buddsoddiadau o £58.3m i £47.2m, sy'n golygu bod benthycy net y Cyngor yn gyffredinol wedi cynyddu gan £7.6m i £91.4m ar 31 Mawrth 2023.

Cadarnhaodd yr adroddiad y cydymffurfiwyd â'r holl ddangosyddion darbodus yn ystod 2022/23.

Sylwadau'r Aelodau Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Cocks sut roedd llithriad yn cael ei reoli mewn perthynas â'r Rhaglen Ysgolion Cyfalaf, gan fod hyn wedi'i ohirio oherwydd Covid. Soniodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod y Rhaglen Gyfalaf yn gyffredinol wedi'i gosod a'i chytuno gan y Cabinet a'i bod wedi'i phroffilio mor realistig ag y gallai fod. Roedd y tîm Cyllid yn edrych ar y trefniadau llywodraethu i reoli'r risg o lithro mewn ffordd well. Roedd Covid yn ffactor yn ogystal â chwyddiant ond roedd yna waith cydbwysu fodd bynnag roedd yn cael ei reoli a'r gobaith oedd na fyddai cymaint o sôn am lithriadau yn y dyfodol.

Aeth y Cynghorydd Cocks ymlaen i ofyn a fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i helpu'r Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod Llywodraeth Cymru bob amser yn agored i drafodaethau a chyfleoedd i ddarparu mwy o gyllid.

- Atgoffodd y Cadeirydd y Cynghorydd Cocks mai rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd sicrhau bod rheolwyr trysorlys a dangosyddion darvoudus o dan reolaeth. Fel pwyllgor roedd angen cael sicrwydd bod modd ariannu'r rhaglen i gyflawni'r ymrwymadau priodol a bod swyddogion yn monitro unrhyw newidiadau.
- Dywedodd Dr Barry ei fod yn bapur rhagorol ac roedd yn rhoi sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor a diolchodd i'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol. Cyfeiriodd Dr Barry at y £10.6M o eiddo sy'n eiddo i'r Cyngor a gofynnodd oedd y capasiti yn cael ei adolygu wrth symud ymlaen ac a oedd yna unrhyw gyfle i gynhyrchu refeniw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol fod yr asedau ar draws Casnewydd yn natur weithredol a bod y mwyafrif helaeth o'r asedau yn ysgolion, diwydiannol masnachol a thir. Roedd prosiect ar waith i ddatblygu strategaeth asedau newydd a gwneud y mwyafrif o'r incwm sy'n gysylltiedig â'r asedau, drwy ail-bwrpasu, gwaredu a throsglwyddo asedau. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol hefyd fod y £10.6M yn eiddo buddsoddi yn bennaf, a fyddai'n cynhyrchu elw ohono.
- Cyfeiriodd D Reed at dudalen 50, pwynt 13 a gofynnodd a oedd gwall yn y ffigurau Buddsoddi a Buddiant a Gronnwyd. Byddai'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yn gwirio'r ffigurau ar gyfer cywirdeb ac yn eu diwygio yn unol â hynny cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Mehefin.
- Ategodd y Cadeirydd sylwadau Dr Barry fod hwn yn adroddiad rhagorol gyda sesiwn hyfforddi dda cyn y pwyllgor a diolchodd i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad.

Penderfynwyd:

Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r adroddiad ar weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer cyfnod 2022-23 a darparodd sylwadau i'r Cabinet/Cyngor.

9 Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-2023

Roedd Archwilio Mewnol Cyngor Dinas Casnewydd yn weithgaredd ymgynghori sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol a gynlluniwyd i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Helpodd sefydliad i gyflawni ei amcanion drwy roi dull systematig a disgybledig ar waith er mwyn gwerthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu."

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Rhoddodd farn gyffredinol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol y Cyngor Dinas yn ystod 2022/23, a oedd yn **Rhesymol** - Rheoli'n ddigonol er bod risgiau wedi'u nodi a allai beryglu'r amgylchedd rheoli cyffredinol; gwelliannau gofynnol; lefel rhesymol o sicrwydd.

Ar gyfer 2022/23 roedd y farn gyffredinol yn seiliedig ar y cynllun Archwilio Mewnol Diwygiedig a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23 (Gorffennaf 2022). Roedd y cynllun blwyddyn

gyfan yn seiliedig ar gynnal 1073 o ddiwrnodau archwilio. Ystyriwyd hefyd y ddibyniaeth ar waith archwilio'r blynyddoedd blaenorol wrth gyrraedd y farn eleni na fu unrhyw systemau na newidiadau sylweddol i'r staff.

Roedd ail ran yr adroddiad yn ymwneud â pherfformiad yr Adran Archwilio Mewnol a pha mor dda y cafodd ei thargedau allweddol yn y flwyddyn eu cyrraedd. Cwblhawyd 77% o'r cynllun archwilio cymeradwy ar gyfer y flwyddyn yn erbyn targed o 80%.

Sylwadau'r Aelodau Pwyllgor:

- Soniodd Dr Barry ei fod yn adroddiad da gyda pherfformiad cyffredinol da yn ystyried staff yn ymestyn ar adnoddau. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro y byddai unrhyw faterion yn cael eu cyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth pe bai angen, yn ogystal â'r rheolwyr gweithredol. Mae archwiliad yn sicrhau bod eu Cylch Gorchwyl yn cael eu dosbarthu ymlaen llaw i gael pawb i ymuno. Weithiau roedd anawsterau ond roedd mecanweithiau ar waith i oresgyn hyn os oedd angen. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol dros Drawsnewid a Chorfforaethol gyda sylwadau pellach Dr Barry fod hyn yn bryder ac y byddai'n rhwystro archwilio i wneud eu gwaith. Awgrymodd y Cadeirydd os oedd problemau gydag uwchgyfeirio archwiliadau y dylid ei gyfeirio at y cyfarfod pwyllgor nesaf.

Roedd Dr Barry yn pryderu nad oedd archwilio'n gallu cael mynediad at staff lefel benodol a dogfennau, ni weithredwyd 9% o'r camau yn yr adroddiadau a hynny oherwydd materion adnoddau, nad oedd unrhyw sicrwydd bod camau gweithredu wedi'u cyflawni. Nodwyd hyn gan y Pennaeth Cyllid.

Nid oedd Dr Barry yn cofio'r wybodaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol (MTG) a ddaeth i'r pwyllgor hwn ac yn meddwl tybed a ddylai wneud hynny. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro nad oedd yr archwiliad wedi darparu unrhyw adroddiad manwl ynghylch y MTG. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai hyn yn cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor yn dilyn yr ymarfer nesaf; Roedd hyn yn rhedeg bob dwy flynedd. Ychwanegodd y Cadeirydd fod Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad o'r awdurdod a'r MTG ac y byddai adroddiad ar gael o fewn y chwech i wyth wythnos nesaf.

- Gofynnodd D Reed oedd unrhyw reswm pam na ddylai'r pwyllgor fod yn galw mewn adroddiad anniogel. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro fod yr adroddiad wedi'i gwblhau, gyda chynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith. Roedd yr archwiliad yn ymwneud â'r Cyfarwyddwr Strategol a'r rheolwyr gwasanaethau a oedd wedi cymryd hyn o ddifrif ac fe'i codwyd yn y Bwrdd Gweithredol. Yn y gorffennol roedd hi'n arfer safonol galw i mewn yr ail farn archwilio anffafriol ond penderfyniad pwyllgorau oedd hwn.

Cyfeiriodd D Reed hefyd at dudalen 70, paragraff 25, bod 146 o gynrychiolwyr wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn a bod AD yn mynd i gymryd rhan mewn hyfforddiant. A oedd unrhyw gyd-destun yn y niferoedd, h.y. faint o bobl yn gyffredinol ddylai gymryd yr hyfforddiant a'r hyn a fyddai'n cael ei roi ar waith i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gwblhau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol fod AD yn mynd drwy'r broses o ailddiffinio hyfforddiant gorfodol i staff. Roedd system newydd ar waith o'r enw Meta Compliance i wthio hyfforddiant allan i staff, byddai hyn yn cadw cofnod o hyfforddiant wedi'i gwblhau a fyddai'n darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Newidiodd hyfforddiant a ystyriwyd yn orfodol, yn enwedig dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r pandemig. Cynhaliwyd hyfforddiant drwy borth y GIG, ond roedd hyn yn annibynadwy. Ni chyflawnwyd hyfforddiant gan Adnoddau Dynol ond elfen AD oedd deall pwy oedd yn ymgymryd â'r hyfforddiant.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Strategol a oedd yn gwybod faint o unigolion oedd yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ac nad oeddent yn cwblhau'r hyfforddiant a beth oedd y sancsiwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol ei fod yn gymhleth ac roedd

tua 5,700 o staff, gyda 3.5K ohonynt yn gweithio ac roedd ganddynt eu set eu hunain o hyfforddiant gorfodol. Roedd tua 700 o bobl yn gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd hefyd â'u set eu hunain o hyfforddiant gorfodol ac a gofnodwyd trwy WCCAS. Yn gorfforaethol, roedd cyfres o fodiwlau hyfforddi gorfodol a fyddai bellach yn cael eu gwrthio allan trwy Gydymffurfriad Meta. Y rhan gymhleth oedd dealltwriaeth o'r rolau swyddi a'r hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig â'r rolau swyddi. Roedd swyddi a disgrifiadau hefyd yn cael eu hadolygu, gan fod 850 o wahanol ddisgrifiadau swyddi. Felly, roedd yn eithaf cymhleth ond roedd ateb yn cael ei roi ar waith.

Roedd D Reed a gyfeiriwyd at Bartneriaeth Archwilio De Orllewin Lloegr yn cefnogi archwiliad gyda'u gwaith a gofynnodd beth oedd y premiwm a dalwyd am y gwasanaeth hwnnw yn uwch na'r gyfradd graddfa swyddi disgwylidig. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro fod yr adnoddau allanol yn costio tua 50% yn fwy mewn rôl sylweddol.

Roedd D Reed yn gwerthfawrogi nad oedd gan yr archwiliad ddigon o adnoddau, a gofynnodd a oedd trefniadau eraill yn cael eu hystyried. Cytunodd y Pennaeth Cyllid fod adnoddau'n broblem yn ogystal ag mewn meysydd eraill ar draws y cyngor, a oedd yn debyg i gynghorau eraill yng Nghymru. Roedd materion gwydnwch ac roedd gwahanol fodolau gweithredol yn cael eu hystyried fel y gwasanaeth rhanbarthol ac roeddent wedi gwneud cyswllt anffurfiol cychwynnol a dylent dderbyn cyfathrebu tua diwedd yr haf. Roedd llenwi'r swyddi gwag mwy iau yn cael eu hystyried yn y cyfamser.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodiad C lle na chwblhawyd tasgau erbyn diwedd y flwyddyn, roedd tair risg uchel. Pam nad ymdriniwyd â nhw cyn materion risg ganolig a faint ar y rhestr oedd wedi cael eu cario drosodd o'r blynyddoedd blaenorol. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro fod y tair risg uchel, y dilyniant llywodraethu corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i ohirio. Roedd Meysydd Parcio ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn ond ni chyrrhaeddodd y cam drafftio adroddiad, ond byddai'r adroddiad hwn yn ddrafft yn fuan. O ran Anghenion Tai, gofynnwyd i Archwilio oedi oherwydd y Pennaeth Gwasanaeth newydd, a ddechreuodd ym mis Hydref, ond adnoddau yn y tîm oedd yn gyfrifol am hynny. Dechreuwyd felly ond munud olaf oedd hi ac ar hyn o bryd roedd yn waith ar y gweill. Roedd tair ysgol risg ganolig wedi'u cynllunio ond gwrthodwyd mynediad i'r tîm archwilio gan fod streic yr athrawon. Trosglwyddwyd hyn yn ôl i'r Pennaeth Gwasanaeth. Roedd adolygiadau ar y gweill ar hyn o bryd ar y cynllun archwilio.

Dywedodd y Cadeirydd os oedd problemau o fewn yr ysgolion, ei bod yn bwysig cysylltu â Phenathiaid i ymweld ag ysgolion i gynnal yr archwiliad. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Strategol a oedd sail statudol i fynd i mewn i ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol, pe bai'r Cadeirydd am ychwanegu hyn fel camau, y byddai ef a'r Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro yn cysylltu â'r Prif Swyddog Addysg i drafod hyn i weld beth y gellid ei wneud, fodd bynnag, roedd hyn yn fater parhaus.

- Gofynnodd D Reed fel pwyllgor, a oedd adroddiad anniogel ynglŷn â Diogelu – Arian Plant, pe bydden nhw'n cael eu galw i mewn. Roedd y Cadeirydd yn deall bod adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi a chytunodd y dylid ei alw i mewn. Hwn oedd yr adroddiad anniogel cyntaf a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ond roeddent yn anfodhaol yn y gorffennol. Felly, roedd y Cadeirydd o'r farn y dylid eu galw i mewn i'r pwyllgor.
- Cytunodd D Barry gyda sylwadau'r Cadeirydd a gofynnodd a oedd unrhyw reswm pam na allai'r pwyllgor weld yr adroddiad llawn ar gyfer cyd-destun. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ymdrin â hyn mewn sesiwn breifat. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol ei fod yn un ffordd ymlaen ond byddai angen trafod hyn gyda'r Swyddog Monitro fel adroddiad Rhan 2. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno trafod y themâu sy'n ymwneud â'r adroddiad.

- Dywedodd y Cadeirydd fod materion capasiti a gofynnodd i'r Pennaeth Cyllid, pe bai'r cyngor yn methu â chyflawni dyletswyddau, y byddai'n werth darparu adroddiad byr i'r pwyllgor hwn i gael sicrwydd na fyddai colli staff yn cael effaith, ar gyfer rownd nesaf y gyllideb. Fe wnaeth y Cadeirydd ddatgan diddordeb fel aelod o'r consortiwm rhanbarthol. Pe bai staff yn cael eu defnyddio yn y consortiwm, ai dyma'r ffordd ymlaen. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau mai'r swyddi gwag oedd yn broblem a dyna lle byddai'r cydweithio posibl yn dod â gwydnwch, profiad a sgiliau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid y cysylltwyd â'r consortiwm ac y byddai'n clywed erbyn diwedd yr haf fel y crybwyllwyd yn flaenorol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd yn ymwneud â lefel y sicrwydd ond nid oedd yn beth absoliwt. Byddai'r Corff Rhanbarthol hefyd yn helpu.

Penderfynwyd:

- Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi ac yn cymeradwy Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23 a Barn Archwilio gyffredinol.
- Galwyd i mewn y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r Farn Archwilio Ansicr ar gyfer Gwasanaethau Plant Diogelu - Arian Plant

Cysylltu â'r Swyddog Monitro i weld a ddylid trafod hyn fel eitem Rhan 2.
- Cyflwyno'r adroddiad ynghylch adnoddau staffio/archwilio a chapasiti yn y Tîm Archwilio i'r PLLacA mewn perthynas â'r consortiwm rhanbarthol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

10 Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-2024

Roedd Archwilio Mewnol Cyngor Dinas Casnewydd yn weithgaredd ymgynghori sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol a gynlluniwyd i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Helpodd sefydliad i gyflawni ei amcanion drwy roi dull systematig a disgybledig ar waith er mwyn gwerthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu."

Gwnaeth archwilio a gwerthuso'n wrthrychol addasrwydd rheoli mewnol gan adrodd arno fel cyfraniad at y broses o ddefnyddio adnoddau'n gywir, yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yr adroddiad amgaeedig oedd y Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar asesiad o risg a'r adnoddau archwilio sydd ar gael ar gyfer y 12 mis o'r flwyddyn ariannol hon. Roedd y cynllun yn seiliedig ar gynnal 862 o ddiwrnodau archwilio.

Swyddog Adran 151 y Cyngor oedd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros Archwilio Mewnol.

Sylwadau'r Aelodau Pwyllgor:

- Cyfeiriodd D Reed at Atodiad 3 a gofynnodd a ellid cynnwys y golofn risg hefyd ac, yn ogystal, o'r un Atodiad, roedd 74 maes na chawsant eu harchwilio erioed a 223 eitem na chawsant eu harchwilio ar ôl 2019/20; Pa mor sylweddol oedd hyn? Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro nad oedd rhai meysydd byth yn cael eu harchwilio ond y tu ôl i'r cynllun archwilio roedd gwybodaeth a thrafodaethau o ran sut y cyrhaeddodd yr archwiliad y cynllun archwilio a'i fod yn seiliedig ar y dyddiau sydd ar gael. Cynhelir trafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaethau i weld pa feysydd oedd o flaenoriaeth ac mae rhai meysydd yn cael eu gwthio i'r ochr. Cafodd Covid effaith, ac roedd archwilio wedi cael trafferth gyda swyddi gwag, a gafodd effaith gronnol. Roedd blaenoriaethu swyddi yn oddrychol, roedd cydbwysedd parhaus. Cynhaliwyd trafodaethau bob blwyddyn i gyrraedd y cynllun archwilio hwn.

- Gofynnodd y Cynghorydd Cocks ai'r Pennaeth Gwasanaeth a benderfynodd lefel y risg. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro fod gan y Pennaeth Gwasanaeth ddylanwad dros y cynllun archwilio yn ogystal â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan gynnwys ffactorau eraill, megis y bwrdd gweithredol a'r adolygiad annibynnol cyn iddo gael ei gymeradwyo, gan gynnwys y Pennaeth Cyllid.

Ychwanegodd y Cynghorydd Cocks mai cyllideb y cyngor oedd canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed ac yn meddwl tybed sut roedd hyn yn chwarae i'r cynllun, er enghraifft, roedd y cytundeb prydau ysgol yn cael ei archwilio ond roedd y Cynghorydd Cocks yn teimlo bod meysydd eraill y gellid eu harchwilio mewn perthynas â phobl agored i niwed, fel Plant ag ADY a lleoliadau y tu allan i'r sir, a fyddai'n peri cryn bryder ynghylch y cyfyngiadau ariannol. Soniodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro fod llawer o ffactorau dylanwadu ac roedd gan Benaethiaid Gwasanaeth gyfle i gyfrannu at gynllun archwilio. Efallai nad yw'r materion allweddol a grybwyllwyd yn rhan o'r Cynllun Archwilio ond gallent fod yn adolygiadau mewnol eraill o wasanaethau sy'n digwydd lle byddai dyblygu yn cael ei osgoi fel ESTYN neu Archwilio Cymru, cymerwyd y materion hyn i ystyriaeth.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol hefyd fod y Cyngor yn cynnal gweithdy bob blwyddyn gyda chyrrff rheoleiddio, ESTYN, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru ac mae'r tîm archwilio yn cyd-fynd â'r ffrâm waith sicrwydd. Fodd bynnag, gellid nodi hyn i'w adolygu pe bai'r Cadeirydd yn cytuno. Ychwanegodd y Cynghorydd Cocks hefyd bod adnoddau archwilio yn cael eu cynnal wrth archwilio ysgolion yn hytrach na gwasanaethau eraill. Oedd archwilio felly yn adolygu cyllideb a gwariant yr ysgol neu feysydd eraill fel gwahardd ac ADY. Soniodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro fod rhaglen safonol yn edrych ar gyllidebau a pholisïau prynu, incwm, llywodraethu, bancio a statudol. Adolygiad thema ar waharddiadau ar draws yr ysgolion. Roedd gan bob archwiliad gwmpas gwahanol ond roedd ystod o wahanol feysydd yn cael eu cynnwys yn yr archwiliad ysgol, nid gweinyddiaeth ariannol yn unig. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol mai rhan o swyddogaeth gwasanaeth addysg ganolog oedd yn cwmpasu Gwent oedd rhoi sicrwydd ynghylch pwyntiau a gododd y Cynghorydd Cocks.

- Dywedodd Dr Norma Barry nad oedd hi'n cofio adroddiadau Archwilio Cymru yn dod i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro eu bod yn gwneud hynny fel rhan o'r adroddiadau rheoleiddio o bryd i'w gilydd. Dywedodd Dr Barry ei bod yn bwysig fel pwyllgor bod y cyngor yn mynd i'r afael â'r camau gweithredu yn yr adroddiadau hynny.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y pwyllgor yn derbyn yr adroddiadau rheoleiddio fel rhan o'r Cylch Gorchwyl ac yn rhan o gyfrifoldeb statudol y Pwyllgorau i fonitro gwaith y Cyngorau yn erbyn yr argymhellion a ddaeth allan o'r cyrrff rheoleiddio.

Dywedodd y Cadeirydd pe bai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad gan Archwilio Cymru a bod argymhellion penodol yna bod angen i'r Pwyllgor eu holrhain. Roedd hyn rhag ofn i Estyn drefnu arolygiad a byddai'n gallu nodi camau na chawsant eu dilyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod yr adroddiad diwethaf yn cynnwys tabl a oedd yn nodi'r corff rheoleiddio, yr argymhellion a roddwyd, pa gamau a gymerwyd a pha bwyllgorau oedd yn goruchwyllo hyn. Er enghraifft, trafodwyd eitemau addysgol yn y Pwyllgor Craffu ar gyfer Pobl, a oedd yn golygu mai rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fyddai sicrhau bod mecanweithiau ar waith ar gyfer cyflawni yn erbyn y camau hynny yn hytrach na monitro'r modd y cyflawnir y camau.

- Amlygodd y Cadeirydd fod 48 archwiliad ar gyfer 2023/24 a dim ond 38 o safbwyntiau archwilio a gyflwynwyd y llynedd a bod 27 swydd nad oedd yn cael eu barnu. Felly, nid oedd y Cadeirydd am i archwilio fynd ar drywydd fyddai'n methu trwy or-ymrwymo a thangyflawni. Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro fod hyn yn tybio bod swyddi gwag yn cael eu llenwi ym mis Hydref a hefyd yn prynu adnodd am 80 diwrnod.

Gofynnodd y Cadeirydd oedd y swyddi yn mynd allan i hysbysebu ac a oedd yna arbediad cyflog. Eglurodd y Pennaeth Cyllid ei fod ef a'r Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro wrthi'n ymchwilio i'r broses recriwtio.

- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd modd blaenoriaethu'r archwiliadau risg uchel yn gyntaf ac yna cynnal yr archwiliad risg canolig. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro ei bod yn bosib ond bod y tîm yn gyfyngedig o ran adnoddau gan fod angen prif archwilydd i gynnal y rhain ar archwiliadau risg uchel.
- Gofynnodd D Reed ar ran y pwyllgor a fyddai'r rhesymeg y tu ôl i'r tabl gwybodaeth yn cael ei ddarparu mewn perthynas â'r 'byth' yn Atodiad 3. Roedd y Cadeirydd o'r farn y gallai fod llawer o waith i'w gwblhau. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro nad oedd y 'byth' yn golygu nad oedd erioed wedi'i archwilio o dan y teitl swydd penodol hwnnw, ond nid oedd hynny o reidrwydd yn golygu nad oedd unrhyw ddarpariaeth swydd yn y meysydd hynny. Gellid bod wedi cynnal archwiliad thema cyffredin neu adolygiad trawsbynciol a dyna pam na chafodd y swydd archwilio benodol honno erioed ei harchwilio. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai fod yn werth nodi ar y bwrdd y gallai fod wedi'i gynnwys, drwy ychwanegu seren i ddweud ei fod wedi'i gwmpasu o dan thema arall i roi sicrwydd iddo. Cytunodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro y gellid edrych ar hyn ar gyfer Cynllun 2024/25.

Penderfynwyd:

Mae Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24 yn cael ei nodi a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor.

11 Rhaglen Waith

Diben blaenraglen waith oedd helpu i sicrhau bod Aelodau'n drefnus ac yn canolbwyntio wrth gynnal ymholiadau drwy swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio. Cyflwynodd yr adroddiad hwn y rhaglen waith gyfredol i'r Pwyllgor er gwybodaeth a manylodd ar yr eitemau sydd i'w hystyried yn nau gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Penderfynwyd:

Y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gadarnhau'r rhestr o bobl yr hoffai eu gwahodd ar gyfer pob eitem a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth neu ymchwil ychwanegol.

Ychwanegir arian diogelu plant at y Rhaglen Waith ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor.

Bod adroddiad blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith, i'w drafod gyda'r Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaeth.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Byddai'r cyfarfod nesaf ar 27 Gorffennaf 2023 am 5pm.

The meeting terminated at Time Not Specified